



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YSTADEGAU

# Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)

Data Cyfrifiad 2021 am y farchnad lafur yng Nghymru, gan gynnwys statws gweithgarwch economaidd, diwydiant a galwedigaeth a theithio i'r gwaith.

Cyhoeddwyd gyntaf: 8 Rhagfyr 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 8 Rhagfyr 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Statws gweithgarwch economaidd

Diwydiant a galwedigaeth

Teithio i'r gwaith

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cyflwyniad

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cyhoeddi data Cyfrifiad 2021 ar Statws gweithgarwch economaidd, diwydiant a galwedigaeth a theithio i'r gwaith trigolion yng Nghymru a Lloegr bore heddiw (Iau, 8 Rhagfyr) mewn 3 bwletin ar wahân.

- [Statws Gweithgarwch Economaidd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021](#)
- [Diwydiant a Galwedigaeth, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021](#)
- [Teithio i'r gwaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021](#)

Mae'r bwletin ystadegol hwn yn cynnwys crynodebau am y tri phwnc ar gyfer Cymru. Mae'r bwletin yn darparu gwybodaeth, ar sail data Cyfrifiad 2021, am statws gweithgarwch economaidd, yr oriau a weithiwyd ac a yw unigolion wedi gwneud gwaith am dâl.

Mae'n cynnwys gwybodaeth hefyd am ddiwydiant, galwedigaeth, graddfeydd cymdeithasol, dulliau teithio i'r gwaith a'r pellter y teithiwyd i'r gwaith, ar sail data Cyfrifiad 2021.

## Prif bwyntiau

- Cynhaliwyd y Cyfrifiad yng nghanol y pandemig coronafeirws (COVID-19), cyfnod o newid digynsail a chyflym; bydd cyfnodau clo a'r canllawiau a mesurau ffyrlo cysylltiedig wedi effeithio ar bynciau'r farchnad lafur a theithio i'r gwaith.
- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, roedd 1.45 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru yn economaidd weithgar (56.5%), gyda 1.11 miliwn (43.5%) yn economaidd anweithgar.
- O'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru, roedd bron eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

hanner yn gyflogedigion (1.16 miliwn, 45.2%), roedd 211,600 yn hunangyflogedig (8.3%) ac roedd 78,900 (3.1%) arall yn ddi-waith ond yn chwilio am waith.

- Roedd bron chwarter y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn economaidd anweithgar am eu bod wedi ymddeol (631,700, 24.7%).
- Y diwydiant a oedd yn cyflogi'r nifer fwyaf o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021 oedd Iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (232,700, 17% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith).
- Y diwydiant a welodd y gostyngiad mwyaf yn y nifer a gyflogir ynddo ers Cyfrifiad 2011 oedd Gweithgynhyrchu, gydag 118,800 o bobl (8.7% o'r rheini mewn gwaith) yn cael eu cyflogi o'u cymharu â 144,600 (10.5%) yn 2011.
- Mae Cyfrifiad 2021 yn amcangyfrif bod 350,500 o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith yng Nghymru yn gweithio gartref.

## Statws gweithgarwch economaidd

Yng Nghyfrifiad 2021, gofynnwyd i bawb 16 oed a throsodd oedd yn llenwi'r cyfrifiad i ateb y cwestiynau am statws eu gweithgarwch economaidd. Roedd y cwestiynau'n gofyn a oedd rhywun yn gweithio neu'n chwilio am waith yn yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021.

Mae sail y boblogaeth yn ôl oed ar gyfer y cyfraddau cyflogaeth ac anweithgarwch yn wahanol i rai'r Arolwg o'r Gweithlu. Darllenwch yr adran ansawdd a methodoleg am ragor o wybodaeth.

Ceir tri phrif fath o statws gweithgarwch economaidd.

1. Yr economaidd weithgar: pobl mewn gwaith (cyflogedig neu hunangyflogedig)
2. Yr economaidd weithgar: pobl ddi-waith (sy'n chwilio am waith ac a allai

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddechrau mewn dwy wythnos, neu sy'n aros i ddechrau swydd sydd wedi'i chynnig a'i derbyn)

3. Yr economaidd anweithgar (y rheini nad oedd ganddynt swydd rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth 2021 ac nad oeddynt wedi bod yn chwilio am waith rhwng 22 Chwefror a 21 Mawrth 2021 neu na fyddent wedi gallu dechrau gweithio mewn dwy wythnos)

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos, o'r 2.56 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd yng Nghymru, bod rhyw 1.37 miliwn ohonynt mewn gwaith (53.5%), 78,900 yn ddi-waith (3.1%) ac 1.11 miliwn yn economaidd anweithgar (43.5%).

Mae'r boblogaeth economaidd weithgar yn cynnwys pobl oedd ar ffyrlo adeg cynnal Cyfrifiad 2021, y barnwyd eu bod o'r gwaith am gyfnod dros dro. Yng Nghymru a Lloegr, dengys ystadegau Cyllid a Thollau EM bod 3.8 miliwn o gyflogedigion yn aelodau o'r Cynllun Cadw Swyddi dros gyfnod y Coronafeirws ar ddiwrnod y Cyfrifiad a bod 1.8 miliwn o bobl hunangyflogedig wedi hawlio pedwerydd grant y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig.

## Yr economaidd weithgar: mewn gwaith

Yng Nghymru, roedd 1.37 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed yn economaidd weithgar ac mewn gwaith yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad, 53.5% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd. Roedd y ganran oedd mewn gwaith yng Nghymru yn is na'r ganran yn Lloegr (57.4%).

Ar draws awdurdodau lleol Cymru, roedd y ganran mewn gwaith yn amrywio o 49.1% yng Ngheredigion i 57.9% yn Sir y Fflint.

Mae canran y bobl sy'n economaidd weithgar mewn ardal yn debygol o fod yn gysylltiedig â phroffil oed preswylwyr arferol yr ardal honno. Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur oed y boblogaeth yn [Amcangyfrifon o'r boblogaeth a](#)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## chartrefi Cyfrifiad 2021.

Roedd yr holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith yn gallu dweud a oeddynt, yn eu prif swydd, yn:

- weithwyr cyflogedig (yn gwneud gwaith am dâl i unigolyn preifat, sefydliad neu fusnes)
- hunangyflogedig neu'n llawrydd (yn berchen neu'n rhedeg eu busnes, eu practis proffesiynol neu fenter debyg eu hunain)

Gofynnwyd i'r bobl hunangyflogedig neu lawrydd i nodi ymhellach a oeddynt yn

- hunangyflogedig heb weithwyr cyflogedig
- hunangyflogedig sy'n cyflogi gweithwyr

Gallai bodolaeth ffyrlo yn ystod pandemig COVID-19 fod wedi gwneud i bobl gategoreiddio'u statws gweithgarwch economaidd yn wahanol.

Yng Nghymru, roedd 1.16 miliwn o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yn weithwyr cyflogedig (45.2% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd). Roedd y gyfran oedd yn weithwyr cyflogedig yn is yng Nghymru nag yn Lloegr (47.7%).

Roedd 211,600 o bobl hunangyflogedig yng Nghymru, sef 8.3% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd. Canran is na'r 9.7% yn Lloegr. O gyfanswm yr hunangyflogedig yng Nghymru, roedd 38,000 (1.5% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd) yn cyflogi pobl eraill ac roedd 173,000 (6.8%) yn hunangyflogedig heb gyflogeion.

Ar draws awdurdodau lleol Cymru, amrywiai'r ganran oedd yn weithwyr cyflogedig o 35.8% yng Ngheredigion i 50.5% yng Nghasnewydd. Amrywiai'r ganran oedd yn hunangyflogedig o 5.5% ym Mlaenau Gwent i 15.0% ym Mhowys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Yr economaidd weithgar: di-waith

Adeg cynnal Cyfrifiad 2021, roedd 78,900 o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru yn economaidd weithgar ac yn ddi-waith (3.1%). Yn eu plith yr oedd pobl oedd yn chwilio am waith ac a allai ddechrau o fewn dwy wythnos neu bobl oedd yn aros i ddechrau swydd oedd wedi'i chynnig a'i derbyn. Roedd y ganran oedd yn economaidd weithgar ac yn ddi-waith yn is yng Nghymru nag yn Lloegr (3.5%).

Yng Nghymru, yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o bobl oedd yn ddi-waith oedd Caerdydd (4.1% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd).

## Yr economaidd anweithgar

Mae person yn economaidd anweithgar os nad oedd mewn gwaith yn yr wythnos cyn y cyfrifiad, ac:

- nad oedd yn chwilio am waith
- ei fod yn chwilio am waith ond ddim yn gallu dechrau gweithio yn y ddwy wythnos nesaf

Cofnodir un o'r canlynol fel y rheswm pam eu bod yn anweithgar:

- wedi ymddeol (yn derbyn pensiwn neu ddim)
- astudio
- gofalu am gartref neu deulu
- â salwch neu anabledd tymor hir
- rheswm arall

Oherwydd effaith y pandemig coronafeirws (COVID-19) ar farchnad lafur y DU, gallai nifer y bobl sy'n economaidd anweithgar fod yn uwch na'r disgwyl. Mae'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

bosibl y gallai rhai pobl sydd ar ffyrlo fod wedi dweud eu bod economaidd anweithgar yn hytrach na'u bod i ffwrdd o'r gwaith am gyfnod dros dro.

Roedd cyfanswm o 1.11 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru yn economaidd anweithgar yn 2021 (43.5% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd). Mae hyn yn cymharu â 39.1% yn Lloegr.

### Siart 1: Cyfran o'r unigolion economaidd anweithgar yn ôl y rheswm am eu hanweithgarwch o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd, Cymru a Lloegr, 2021



Mae'r siart bar yn dangos y rheswm pennaf am anweithgarwch yng Nghymru ac yn Lloegr yw 'wedi ymddeol', 21.5% a 24.7% a yn y drefn honno.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021

Yng Nghymru, y rheswm a ddewiswyd amlaf am eu hanweithgarwch

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



economaidd oedd:

- wedi ymddeol (24.7% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd, 631,700)
- â salwch neu anabledd tymor hir (5.9%, 151,300)
- astudio (5.7%, 145,200)

Roedd canrannau uwch o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru wedi ymddeol (24.7%) neu â salwch neu anabledd tymor hir (5.9%) nag yn Lloegr (21.5% a 4.1% yn y drefn honno).

## Oriau a weithiwyd

Gofynnwyd i'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith sawl awr yr oeddynt yn ei weithio yr wythnos, gan gynnwys goramser â thâl a heb dâl.

Gyda ffyrlo, a busnesau ar agor am lai o amser yng Nghymru a Lloegr adeg cynnal Cyfrifiad 2021 oherwydd y pandemig coronafeirws (COVID-19), gallai hynny fod arwain at bobl yn cofnodi eu bod yn gweithio mwy neu efallai lai o oriau na chyn y pandemig.

Yng Nghymru, roedd 958,000 (70.1%) o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith yn gweithio'n amser llawn (31 awr neu fwy yr wythnos). O'r cyfanswm hwnnw, roedd 818,800 o bobl yn gweithio 31 i 48 awr yr wythnos (59.8%) a 140,100 yn gweithio 49 awr neu fwy yr wythnos (10.2%).


Roedd y 409,600 (29.9%) o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd yn weddill mewn gwaith yn gweithio'n rhan-amser (hyd at 30 awr yr wythnos). O'r rheini a weithiai'n rhan-amser, roedd 123,600 (9%) yn gweithio 0 i 15 awr yr wythnos, a 285,900 (20.9%) yn gweithio 16 i 30 awr yr wythnos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 2: Cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ôl yr oriau a weithiwyd yr wythnos, Cymru a Lloegr, 2021



Mae'r siart cylch yn dangos bod 70% o breswylwyr Cymru oedd mewn gwaith yn gweithio'n amser llawn, gyda 59.8% o'r preswylwyr mewn gwaith yn gweithio 31 i 48 awr yr wythnos.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021

O'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith, roedd y gyfran oedd yn gweithio'n amser llawn ac yn rhan-amser yn Lloegr yn debyg i Gymru, ar 70.2% a 29.8% yn y drefn honno.

Ar draws awdurdodau lleol Cymru, amrywiai'r ganran oedd yn gweithio'n amser llawn o 65.3% yng Ngheredigion i 73.7% ym Mlaenau Gwent.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Hanes cyflogaeth: erioed wedi gwneud gwaith am dâl

Gofynnwyd i'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd yn economaidd weithgar ac yn ddi-waith, neu'n economaidd anweithgar a oeddynt wedi gwneud unrhyw waith am dâl erioed. Roedd hynny'n gyfle i rannu'r rheini nad oeddynt mewn gwaith adeg cynnal Cyfrifiad 2021 yn dri chategori.

1. Wedi gwneud gwaith â thâl yn y 12 mis diwethaf (136,800, 11.5% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd nad oeddynt mewn gwaith)
2. Roedd y tro diwethaf iddynt wneud gwaith â thâl fwy na 12 mis yn ôl (779,000, 65.4%)
3. Erioed wedi gweithio (275,200, 23.1%)

Roedd cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd erioed wedi gweithio yn is yng Nghymru (23.1% erioed wedi gweithio) nag yn Lloegr (25.6%). Roedd canran y rheini nad oeddynt wedi gweithio am dâl ers dros 12 mis yn uwch yng Nghymru (65.4%) nag yn Lloegr (61.1%).

Yng Nghymru, Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â'r ganran uchaf o bobl oedd erioed wedi gweithio (28.6%) ac â'r ganran isaf o bobl nad oeddynt wedi gweithio am dâl ers dros 12 mis (53.4%)

## Diwydiant a galwedigaeth

### Diwydiant


Yng Nghymru, roedd 1.37 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yn yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021 (53.5% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

### Siart 3: Nifer y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yn ôl Diwydiant yng Nghymru, 2021



Mae'r siart bar yn dangos y diwydiannau yng Nghymru oedd yn cyflogi'r nifer fwyaf o bobl oedd Gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol a Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021

Y diwydiannau bras oedd yn cyflogi'r nifer fwyaf o bobl yng Nghymru adeg cynnal Cyfrifiad 2021 oedd:

- gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (232,700 o bobl, 17% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith)
- masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur (198,000, 14.5%)
- addysg (131,100, 9.6%)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Y diwydiant bras a welodd y cynnydd pwyntiau canran mwyaf mewn cyflogaeth yng Nghymru oedd gweithgareddau iechyd pobl a gwaith cymdeithasol (cynnydd o 2.6 pwynt canran o 14.4% yn 2011 i 17.0% yn 2021).

Gwelodd cyflogaeth yn y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru ostyngiad o 1.9 pwynt canran (o 10.5% yn 2011 i 8.7% yn 2021), y diwydiant bras a welodd y gostyngiad mwyaf.

Gellir rhannu'r categorïau diwydiannol yn rhaniadau pellach, er mwyn cael darlun hyd yn oed yn fanylach o gyflogaeth fesul diwydiant. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod y prif raniadau diwydiannol yng Nghymru'n cynnwys:

- gweithgareddau iechyd pobl (137,700, 10.1%)
- masnach manwerthu ac eithrio cerbydau modur a beiciau modur (137,100, 10.0%)
- gweithgareddau gwaith cymdeithasol heb lety (69,900, 5.1%)
- gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diod (56,400, 4.1%)

Yng Nghymru, gwelwyd cynnydd mewn cyflogaeth mewn gweithgareddau iechyd pobl (o 7.6% yn 2011 i 10.1% yn 2021) tra gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn cyflogaeth yn y fasnach manwerthu ac eithrio cerbydau modur a beiciau modur (o 11.1% yn 2011 i 10.0% yn 2021).

## Galwedigaeth

Yng Nghyfrifiad 2021, gofynnwyd i ymatebwyr 16 oed a throsodd am deitlau llawn eu swyddi (ar gyfer eu prif swydd, neu os nad oeddynt yn gweithio, eu prif swydd diweddaraf) a phrif weithgaredd eu cyflogwr. Rhoddwyd cod i'w hatebion gan ddefnyddio **Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2020**.

Mae'r data a gyhoeddir yn y bwletin ystadegol hwn yn cynnwys data galwedigaethol sydd wedi'u rhannu'n 104 o is-grwpiau. Gellir eu hymgorffori yn y


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

naw categori galwedigaethol lefel uchel a ddangosir yn siart 4.

#### Siart 4: Cyfran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith yn ôl y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol, Cymru a Lloegr, 2021



Mae siart bar yn dangos y categori oedd â'r gyfran uchaf oedd y Galwedigaethau proffesiynol, gydag 18.2%.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021

Yng Nghymru, roedd 18.2% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith yn gweithio yn y galwedigaethau proffesiynol (249,500), gan ei wneud y categori galwedigaethol bras mwyaf. Hefyd, roedd 166,600 (12.2%) yn gyflogedig yn y galwedigaethau â chrefftau medrus ac 161,300 (11.8%) yn gyflogedig yn y galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig.

Roedd canran is yng Nghymru'n cael eu cyflogi yn y galwedigaethau proffesiynol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

(18.2% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith) nag yn Lloegr (20.3%).

Gan ddefnyddio'r 104 o gategoriâu yn y dosbarthiad manwl, gallwn ddeall yn well y galwedigaethau y cyflogir pobl ynddynt. Yng Nghymru, roedd y grwpiau galwedigaethol mân sydd â'r nifer fwyaf o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yn gweithio ynddynt yn cynnwys:

- Gwasanaethau Personol Gofalgar (6.5%, 88,400)
- Cynorthwywyr Gwerthu ac Arianwyr Manwerthu (5.3%, 72,900)
- Athrawon a Gweithwyr Proffesiynol Addysg eraill (3.5%, 47,900)
- Gyrwyr Cludiant Ffyrdd. (3.3%, 44,600)

Y grŵp galwedigaethol manwl mwyaf oedd y gwasanaethau personol gofalgar, yn Lloegr (4.9%, 1.3 miliwn) ac yng Nghymru (6.5%, 88,400).

## **Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SeC)**

Mae NS-SEC yn rhoi syniad o'r sefyllfa economaidd-gymdeithasol, ar sail yr ymatebion i gwestiynau am statws gweithgarwch economaidd, galwedigaeth a hanes cyflogaeth yng Nghyfrifiad 2021. Mae'n ddosbarthiad safonol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


Cafodd holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd god un o'r categorïau NS-SEC bras a ddangosir yn siart 5.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 5: Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith yn ôl Categori NS-SeC, Cymru a Lloegr, 2021



Mae siart bar yn dangos y categori mwyaf yn y ddwy wlad yw Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is, yn cyfrif am 19.4% o'r gweithlu yng Nghymru ac 19.9% yn Lloegr.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021

Yng Nghymru, y categori NS-SeC mwyaf yn 2021 oedd Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is gyda 497,400 (19.4%) o unigolion, ac yna'r Galwedigaethau arferol gyda 337,700 (13.2%) o unigolion. Yn Lloegr y categori mwyaf yno hefyd oedd Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is (9.2 miliwn, 19.9%).

Y categori NS-SeC lleiaf yng Nghymru yn 2021 oedd Galwedigaethau goruchwyllo a thechnegol is gyda 159,900 (6.2%) o unigolion. Yn Lloegr y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



categori lleiaf yno hefyd oedd Galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is (2.5 miliwn, 5.3%).

## Teithio i'r gwaith

### Gweithio gartre'n bennaf

Yn 2021, roedd 1.37 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Cyfrifiad 2021.

Ar ffurflen Cyfrifiad 2021, gofynnwyd i bobl oedd mewn gwaith neu a oedd o'r gwaith am gyfnod dros dro yn yr wythnos cyn y Cyfrifiad "Sut ydych chi fel arfer yn teithio i'r gwaith?". Gofynnwyd i bobl ddewis yr un dull teithio a ddefnyddir ganddynt ar gyfer darn hiraf, o ran pellter, eu taith arferol i'r gwaith.

At ei gilydd, amcangyfrifwyd bod 350,500 o bobl yng Nghymru'n gweithio gartref yn bennaf, sef 25.6% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith.

Roedd canran lai yn gweithio gartref yn bennaf yn 2021 yng Nghymru (25.6%) nag yn Lloegr (31.5%). Ar draws awdurdodau lleol Cymru, yng Nghaerdydd yr oedd y gyfran uchaf o bobl oedd yn gweithio gartref yn 2021 (36.1%), ac ym Mlaenau Gwent (14.0%) oedd y gyfran isaf.

Gellir esbonio'n rhannol y gwahaniaethau o ran gweithio gartref ar lefel y wlad, rhanbarth ac awdurdod lleol gan amrywiadau mewn cyflogaeth o fewn galwedigaethau a diwydiannau. Fe welwch fwy o wybodaeth ynghylch sut roedd pobl yn cael eu cyflogi yn yr adran Diwydiant a Galwedigaeth.

O ganlyniad i'r pandemig coronafeirws (COVID-19), cyflwynodd Llywodraeth y DU fesurau ffyrlo i sicrhau bod y rhai nad oeddent yn gallu gweithio yn cael aros mewn cyflogaeth. Roedd y ffyrlo yn cynnwys pobl ar y Cynllun Cymorth Incwm i'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Hunangyflogedig (SEIS) a'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS). Wrth lenwi ffurflen Cyfrifiad 2021, cynghorwyd pobl ar ffyrlo, yn ogystal â'r rhai a oedd mewn cwarantyn neu'n hunan-ynysu oherwydd y pandemig, i ddweud eu bod i ffwrdd o'u gwaith am gyfnod dros dro. Roedd gan bobl ar ffyrlo ganllawiau penodol i'w helpu i ymateb; darllenwch fwy am hyn yn yr wybodaeth am [Deithio i'r Gwaith ar gyfer Cyfrifiad 2021](#). Cafodd pobl a oedd o'u gwaith am gyfnod dros dro eu cynnwys yn y boblogaeth economaidd weithgar.

## Dull teithio i'r gwaith

Yng Nghymru roedd 1.02 miliwn o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith (74.4%) nad oeddynt yn gweithio gartref yn bennaf. Gwnaethant nodi'r prif ddull teithio a ddefnyddient fel arfer i gyrraedd eu lle gwaith. Mae'n debygol bod cyfyngiadau yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19) wedi cyfrannu at newid y ffordd roedd pobl yn teithio i'r gwaith, gan gynnwys lleihau'r defnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Yng Nghymru, o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith:

- roedd 772,600 o bobl yn teithio i'r gwaith trwy yrru car neu fan (56.5% o'r holl breswylwyr 16 oed a throsodd mewn gwaith)
- roedd 66,000 yn teithio fel teithwyr mewn car neu fan (4.8%)


Amcangyfrifir bod canran y bobl a yrrai car neu fan i'r gwaith yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr (44.5%, 11.8 miliwn). Amrywiai'r canrannau o fewn awdurdodau lleol Cymru o 40.1% yng Nghaerdydd i 68.5% ym Mlaenau Gwent.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 6: Dull teithio i'r gwaith heblaw am yrru car neu fan ar gyfer preswylwyr arferol 16 oed a throsodd Cymru, 2021



Mae siart bar yn dangos heblaw am yrru car neu fan, y categori mwyaf yw ar droed, yn cyfrif am 7.1% o'r teithiau i'r gwaith.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021

Mae'n debygol bod cyfarwyddyd y Llywodraeth ar gadw pellter cymdeithasol, cau gweithfannau a ffyrlo, yn ogystal â'r cyngor i beidio â theithio os nad oedd rhaid ac i osgoi teithio ar gludiant cyhoeddus wedi cyfrannu at lai o bobl yn defnyddio cludiant cyhoeddus yn 2021 o'u cymharu â Chyfrifiad 2011.

Yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â'r ganran fwyaf sy'n teithio ar feic yw Caerdydd (2.9%, 4,700) a Sir y Fflint (1.5%, 1,100).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Pellter teithio i'r gwaith

Gofynnwyd i ymatebwyr 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith ac a ddywedodd mai gweithle neu ddepo oedd eu prif weithle am eu cyfeiriad gweithle, ac o hynny fe wnaethom gyfrifo'r pellter yr oeddent yn teithio i'r gwaith.

### Siart 7: Pellter teithio i'r gwaith preswylwyr arferol 16 oed a throsodd yng Nghymru, 2021



Mae siart bar yn dangos y pellter teithio mwyaf cyffredin oedd rhwng 5 a 10 cilometr, yn cyfrif am 21.1% o'r rheini oedd mewn gwaith.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021

Yng Nghymru, roedd 827,500 o bobl yn teithio i weithle neu ddepo (60.5% o'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

preswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith). Yn ogystal â'r 350,500 o bobl a oedd yn gweithio gartref yn bennaf (25.6%), roedd 190,400 arall yn gweithio'n bennaf mewn gweithfan ar y môr, mewn lle nad oedd yn sefydlog, neu y tu allan i'r DU (13.9%).

O'r rhai oedd yn teithio i weithle neu ddepo, roedd 496,900 o bobl (36.3% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith) yn teithio pellter byr i'r gwaith (llai na 10km). Gan edrych yn fanylach ar y grŵp hwn:

- roedd 158,900 o bobl yn teithio lai na 2 km (11.6% o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith)
- roedd 163,400 o bobl yn teithio o leiaf 2 km i lai na 5 km (11.9%)
- roedd 174,600 o bobl o leiaf 5 km i lai na 10 km (12.8%)

Roedd canran uwch o'r preswylwyr arferol 16 oed a throsodd oedd mewn gwaith yn teithio'r pellter byrraf (llai na 10 cilometr) a'r pellter hirach (10 cilometr a throsodd) i'w gwaith yng Nghymru (36.3% a 24.2%, yn y drefn honno) nag yn Lloegr (35.4% a 18.7%, yn y drefn honno).

Yng Nghymru, yr awdurdodau lleol â'r canrannau mwyaf yn teithio pellteroedd byr (llai na 10 cilometr) oedd Abertawe (46.7%) a Wrecsam (46.3%), a'r awdurdodau lleol â'r canrannau mwyaf yn teithio'n bell (10 cilometr neu fwy) oedd Blaenau Gwent (32.5%) a Sir Gaerfyrddin (32.2%).

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

I weld gwybodaeth lawn am ansawdd a methodoleg, gan gynnwys geirfa, ewch i [Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg Swyddfa Ystadegau Gwladol](#).

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 ar adeg o newid cyflym. Rhoddwyd cyngor ychwanegol i bobl ar ffyrlo i'w helpu i ateb cwestiynau'r cyfrifiad am waith. Ond

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

mae'n amhosib i ni allu dweud a wnaeth pobl ar ffyrlo ddilyn y cyngor. Cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r data felly at ddibenion cynllunio. Darllenwch fwy am ansawdd yng ngwybodaeth Swyddfa Ystadegau Gwladol am y **farchnad lafur ar gyfer methodoleg Cyfrifiadur 2021**.

Mae'r newid yn y boblogaeth mewn rhai ardaloedd o bosib yn adlewyrchu sut gwnaeth y pandemig coronafeirws (COVID-19) effeithio ar ddewis pobl o'u preswylfan arferol ar ddiwrnod y Cyfrifiad. Gallai'r newid hyn fod yn newid dros dro i rai ac yn newid fwy parhaol i bobl eraill.

Caiff rhagor o ddata Cyfrifiad 2021 eu cyhoeddi o fis Tachwedd, gan gynnwys gwybodaeth am bynciau fel y Gymraeg. Am ragor o wybodaeth am y data a'r dadansoddiadau sydd ar gael, ewch i **Cynlluniau Datganiadau Swyddfa Ystadegau Gwladol**.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau'n cymharu amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 â'r **Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diweddaraf (Swyddfa Ystadegau Gwladol)** ac **amcangyfrifon poblogaeth gweinyddol Swyddfa Ystadegau Gwladol**, gan gynnwys esboniadau o unrhyw wahaniaethau.

## Statws gweithgarwch economaidd

Cynghorwyd y bobl oedd ar ffyrlo adeg cynnal y Cyfrifiad i ddweud eu bod "o'r gwaith am gyfnod dros dro" a chawsant eu cynnwys yn y boblogaeth economaidd weithgar.

Mae sail y boblogaeth yn ôl oed ar gyfer y cyfraddau cyflogaeth ac anweithgarwch (preswylwyr arferol 16 oed a throsodd) yn wahanol i rai'r Arolwg o'r Gweithlu (preswylwyr arferol 16 i 64 oed). Darllenwch **Drosolwg Llywodraeth Cymru o'r farchnad lafur** am ragor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Geirfa

Fe welwch restr geirfa lawn yn [Geiriadur Cyfrifiad 2021](#).

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ran dibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Rhoddir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan adain reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau cyhoeddus a'r drafodaeth gyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu a yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a gellir ei ddyfarnu unwaith eto pan bodlonir y safonau.

Cadarnhawyd bod yr ystadegau hyn wedi cadw eu statws fel Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2022 yn dilyn yr [asesiad llawn ddiweddaraf o'r ystadegau yn unol â'r Cod Ymarfer](#) gan [y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn osodwyd gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwytodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Alex Fitzpatrick

E-bost: [ystadegau.economi@llyw.cymru](mailto:ystadegau.economi@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099



SB 41/2022

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/y-farchnad-lafur-theithio-ir-gwaith-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).